Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg

**Swyddfeydd Dinesig**
**Heol Holton**
**Y Barri**
**CF63 4RU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod ychydig yn wahanol mewn fformat i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Cyd-destun y ddarpariaeth

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg wedi'i leoli yng Nghyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yr awdurdod lleol. Mae wedi'i leoli o fewn y maes gwasanaeth Safonau a Darpariaeth ac wedi cael ei integreiddio'n llawn o fewn gwasanaethau addysg ehangach, gan gadw ei hunaniaeth a'i ethos unigryw. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cyfleoedd anffurfiol, rhai nad ydynt yn ffurfiol, a chyfleoedd ffurfiol i bobl ifanc 11-25 oed ar draws Bro Morgannwg i'w cynorthwyo i gyflawni eu llawn botensial. Mae ychydig dros 40 aelod o staff yn gweithio o fewn gwasanaethau targedig a chyffredinol i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cynorthwyo. Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylcheddau diogel i bobl ifanc fwynhau eu hunain, cyfarfod â phobl eraill, teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, cael at wybodaeth a dysgu medrau newydd. Ymgorfforwyd hyn trwy ystod o ddarpariaeth gyffredinol mynediad agored, yn cynnwys clybiau ieuenctid, prosiectau llais a hawliau ieuenctid, gwaith datgysylltiedig, darpariaethau ar y stryd a darpariaethau symudol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu ymyriadau targedig a gefnogir gan gyllid allanol, er enghraifft prosiectau wedi'u targedu at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) a digartrefedd (cyn ac ar ôl 16), y Gwasanaeth Lles Ieuenctid, Seren[1] a'r prosiect llysgenhadon hawliau. Mae pob un o'r prosiectau hyn yn cynnwys ffocws dan arweiniad ieuenctid ar anghenion pobl ifanc ym mhob ardal o Fro Morgannwg.

Nifer y bobl ifanc sydd wedi'u cofrestru ac yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid fel canran o'r boblogaeth ieuenctid ar gyfer Bro Morgannwg yn 2022/23 oedd 14% o gymharu ag 15% ledled Cymru gyfan. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 7.8 pwynt canran o gymharu â'r llynedd ac yn adlewyrchu trywydd cadarnhaol yn ystod y cyfnod ers y pandemig. Ymgysylltodd 3,057 o bobl ifanc â'r gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ôl y darparwr, mae'r cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i rannu ar hyn o bryd rhwng 53% o gyllid grant a 47% o gyllid craidd.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o waith ieuenctid ychydig o wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol Bro Morgannwg. Mae hyn yn ein galluogi fel y gallai'r negeseuon a'r gwerthusiadau o'r arolygiad gwaith ieuenctid lywio'r arolygiad o'r gwasanaethau addysg llywodraeth leol ehangach, lle bo'n berthnasol.

---

[1] Seren: Mae Academi Seren yn fenter a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru sy'n ymroi i gefnogi dysgwyr mwyaf abl Cymru sy'n cael eu haddysg mewn ysgol wladol i gyflawni eu llawn botensial academaidd i mewn i brifysgolion arweiniol, a llwyddo ar raglenni gradd hynod ddethol.

## Trosolwg

Trwy gymryd rhan yng ngweithgareddau gwasanaeth ieuenctid Y Fro, mae llawer o bobl ifanc yn ennill y medrau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr agweddau a'r gwerthoedd i gefnogi eu datblygiad a'u lles personol eu hunain. Maent yn datblygu ystod eang o fedrau yn ogystal ag ennill achrediad mwy ffurfiol trwy ystod o ddyfarniadau a chyfleoedd achredu lleol a chenedlaethol.

Mewn sesiynau targedig ysgolion, mae pobl ifanc yn datblygu gwydnwch a medrau ymdopi sy'n ymestyn eu dysgu ffurfiol. Mae llawer o bobl ifanc nad ydynt wedi llwyddo yn y gorffennol yn magu hyder, yn creu perthnasoedd gwell ac yn ystyried eu dyfodol.

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn mynegi eu barn ym mhob un o'r sesiynau a arsylwyd gennym. Mae aelodau o Gyngor Ieuenctid Y Fro yn mynegi eu safbwyntiau a'u barn mewn modd soffistigedig sy'n cael eu dadlau'n fedrus. Mae'r bobl ifanc hyn yn datblygu dealltwriaeth gref o'r broses ddemocrataidd ac yn dod yn siaradwyr cyhoeddus medrus. Mae pobl ifanc eraill yn mynegi eu hunain trwy weithgareddau chwaraeon, prosiectau crefft ymladd a garddio. Dangosant awydd i gyfrannu at y dynameg grŵp.

Mae llawer o bobl ifanc yn mynegi eu hunaniaethau a'u safbwyntiau eu hunain yn hyderus tra'n dysgu gwerthfawrogi pobl eraill, hefyd. Maent yn dod yn eiriolwyr effeithiol dros eu hawliau, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol. Maent yn herio gwahaniaethu, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn creu newid cadarnhaol o fewn eu grwpiau cyfoedion. Mae ychydig o bobl ifanc yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda. Yn amgylchedd diogel y gwasanaeth ieuenctid, caiff llawer o bobl ifanc eu grymuso i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a gwneud newid cadarnhaol yn eu bywydau eu hunain ac yn eu cymunedau.

Mae ansawdd y gwaith ieuenctid yn gyson uchel. Mae gweithwyr ieuenctid yn glir iawn am egwyddorion gwaith ieuenctid ac yn adlewyrchu hyn yn eu harfer. Maent yn ymroi i'w rolau, yn cyfathrebu'n effeithiol, yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â phobl ifanc ac mae ganddynt lefelau uchel o egni a brwdfrydedd. Maent yn chwilio am ffyrdd i fireinio a gwella'u gwaith yn barhaus. Mae staff ysgolion yn dangos parch mawr at y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau ysgol, ac yn eu hystyried yn weithwyr proffesiynol cyfartal. Cânt eu gwerthfawrogi gan bobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr.

Mae gweithwyr ieuenctid yn asesu anghenion pobl ifanc â heriau mwy cymhleth yn gyflym, ac mae'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol o fewn y timau a'r partneriaid amrywiol, ac ar eu traws, yn golygu bod cymorth yn brydlon ac yn effeithlon, fel ei gilydd. Mae ganddynt yr agwedd na fyddant byth yn rhoi'r gorau i ymdrechu ar ran person ifanc, beth bynnag yw'r rhwystrau. Maent yn hynod ddibynadwy ac yn chwarae rôl arwyddocaol mewn cynorthwyo pobl ifanc sy'n cael trafferthion, yn ogystal ag ymestyn cymorth effeithiol i'r teulu ehangach.

Ceir cyfuniad priodol o ddarpariaeth gyffredinol a thargedig.Mae'r ddarpariaeth yn addasdwy ac mae ar gael ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Mae'n ymatebol i'r galw ac yn galluogi'r gwasanaeth i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol. Mae gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig yn ymchwilio ac yn mapio meysydd angen ac

mae'r gwasanaeth yn dod o hyd i ffyrdd arloesol o ddiwallu'r anghenion hyn lle nad yw clybiau mewn adeiladau yn gynaliadwy.

Caiff sesiynau mynediad agored, cyffredinol, eu cynllunio a'u staffio'n effeithiol, ac maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc. Mae amrywiaeth dda o sesiynau targedig yn darparu ymyriadau ar gyfer pobl ifanc fregus y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt mewn llawer o agweddau ar eu bywydau.

Pan fydd cyfleoedd yn bodoli, mae pobl ifanc yn ymgysylltu'n ddefnyddiol â'r gweithgareddau Cymraeg, ond ar y cyfan, nid yw'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael yn gyfartal i bobl ifanc o bob rhan o'r Fro. Yn ychwanegol, nid yw ystod y cyfleoedd i gynorthwyo staff i wella a defnyddio'u medrau Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae gwasanaeth ieuenctid Bro Morgannwg wedi'i seilio'n gryf ar lais pobl ifanc ac ar ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt i dyfu'n ddinasyddion hyderus a gwybodus. Mae arweinydd y Cyngor, y cynghorwyr a'r prif weithredwr yn rhoi hwb i bobl ifanc ac yn cefnogi eu her gadarnhaol i bolisïau'r Cyngor. Mae gan y gwasanaeth ieuenctid weledigaeth glir a ysgrifennwyd ar y cyd â phobl ifanc.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid o fewn y gyfarwyddiaeth dysgu a sgiliau ac yn ychwanegu at yr agenda addysg ffurfiol. Mae'r gwasanaeth wedi dewis blaenoriaethau clir yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc, blaenoriaethau lleol a chenedlaethol a'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'i adnoddau, adnoddau partneriaid ac ystod eang o ffrydiau cyllid eraill yn ddychmygus i gynnal darpariaeth. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar atebion ac wedi'i seilio ar waith partneriaeth cryf iawn wedi'i ategu gan gytundebau trylwyr. Caiff anghenion pobl ifanc eu rhoi'n glir gerbron ystyriaethau sefydliadol, a rhennir gwybodaeth yn effeithiol. Ceir partneriaethau cryf ag ysgolion. Mae uwch arweinwyr ysgolion yn deall gwerth gwaith ieuenctid ac yn gwerthfawrogi'r ymyriadau cadarnhaol a wna gweithwyr ieuenctid gyda phobl ifanc yn fawr.

Mae cynllunio gwasanaethau, rheoli ansawdd a defnyddio data yn drylwyr. Mae trefniadau diogelu yn briodol. Mae pob un o'r staff yn meddu ar gymwysterau addas ac wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Ceir ethos o ddatblygu a myfyrio parhaus ac ymrwymiad cryf a pharhaus i ddysgu proffesiynol ar draws y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i staff asiantaethau a gwirfoddolwyr ac yn rhannu hyfforddiant ag asiantaethau partner. Mae gan y gwasanaeth draddodiad cryf o feithrin a hyfforddi staff sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth, neu wedi bod yn ddefnyddwyr gwasanaeth, ac mae sawl un ohonynt bellach yn gweithio yn y gwasanaeth fel gweithwyr ieuenctid cymwys.

## Argymhellion

Mae gennym ni un argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1 Datblygu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

Mae pobl ifanc yn gwneud cynnydd sylweddol iawn tuag at gyflawni'r nodau fel y maent wedi'u nodi o fewn Egwyddorion a Dibenion Gwaith Ieuenctid[2]. Mae llawer ohonynt yn cyflawni ym mhob agwedd ar bum piler gwaith ieuenctid.

### Addysgiadol

Mae llawer o bobl ifanc yn ennill y medrau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr agweddau a'r gwerthoedd i gefnogi eu datblygiad a'u lles personol eu hunain. Mae pobl ifanc yn datblygu ystod eang o fedrau yn ystod amrywiaeth eang o sesiynau, gan gynnwys byw yn y gwyllt, medrau mordwyo, yn ogystal â dysgu achrededig mwy ffurfiol. Mae gan y gwasanaeth ieuenctid gynllun achredu pum mlynedd sy'n galluogi pobl ifanc i gydnabod eu cyflawniad trwy ystod o ddyfarniadau a chyfleoedd achredu lleol a chenedlaethol. Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Bro Radio yn dysgu medrau defnyddiol yn y cyfryngau ac mewn cyflwyno, ac yn gweithio tuag at achrediadau.

Mewn sesiynau ysgol targedig, mae pobl ifanc yn datblygu gwydnwch a medrau ymdopi. Mae llawer ohonynt yn magu hyder ac yn dechrau deall sut i ryngweithio'n fwy effeithiol ag oedolion a phobl ifanc eraill. Maent yn archwilio effaith eu gweithredoedd a'u hymddygiadau ar bobl eraill. Mae llawer ohonynt yn dod i ddeall pwysigrwydd datblygu eu diddordebau, eu hoffterau a'u medrau eu hunain. Daw llawer o bobl ifanc i ddeall pam mae angen iddynt ddysgu a datblygu'r gallu i ganolbwyntio ar eu gwaith academaidd. Mae llawer ohonynt nad ydynt wedi llwyddo o'r blaen yn dysgu gosod heriau iddyn nhw eu hunain ac yn teimlo'n falch pan fyddant yn eu cyflawni. Trwy glybiau ar ôl yr ysgol ac ymgysylltu â'r gymuned, maent yn dechrau datblygu medrau gwaith tîm ac arwain. Mae llawer o bobl ifanc yn dechrau edrych tuag at eu dyfodol ac yn ystyried cyrsiau addysg bellach neu lwybrau cyflogaeth.

Mae pobl ifanc yn y grŵp oedran 16 ac yn hŷn a'r rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglenni Ymdrechu a Seren yn gwneud cynnydd da iawn. Maent yn dod i ddeall yr heriau posibl y gallent eu hwynebu wrth ddilyn eu hastudiaethau academaidd neu'u gyrfaoedd dymunol, ac yn datblygu strategaethau i oresgyn rhwystrau, fel rhwystrau personol a disgwyliadau cymdeithasol.

---

[2] Egwyddorion Gwaith Ieuenctid Cymru: CWVYS

## Mynegiannol

Mae’r gwasanaeth ieuenctid a’r partneriaid dan gontract yn darparu platfform sy’n galluogi pobl ifanc i ddarganfod, archwilio a mynegi eu hunain, gan feithrin dewis, twf a hunanfynegiant personol. Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn dda ac yn barod i gyflwyno’u barn yn yr holl sesiynau, gan gynnwys yn y ddarpariaeth awyr agored, fel y sesiwn byw yn y gwyllt Teuluoedd yn Gyntaf. Mae aelodau o Gyngor Ieuenctid Y Fro yn mynegi eu safbwyntiau a’u barn mewn modd soffistigedig sy’n cael eu dadlau’n fedrus. Maent yn craffu ar bolisi’r Cyngor yn effeithiol ac mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol i faterion sy’n effeithio arnynt, er enghraifft goleuadau stryd mewn ardaloedd trefol penodol.

Trwy’r gweithgareddau hyn, mae pobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth gref o’r broses ddemocrataidd ac yn meithrin eu medrau mewn areithio a deialog berswadiol. Maent yn ethol un o’u haelodau i fod yn aelod o Senedd Ieuenctid y DU, gan felly ehangu profiad yr unigolyn hwnnw sydd, yn ei dro, yn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd gyda chyd-aelodau o Gyngor Ieuenctid Y Fro.

Mae pobl ifanc hefyd yn mynegi eu hunain trwy weithgareddau chwaraeon a phrosiectau crefft ymladd fel Gloves in the Gym a DoJo. Er bod menywod ifanc yn mynychu hefyd, mae’r prosiectau hyn yn helpu dynion ifanc, yn benodol, i ddefnyddio’u hegni, dysgu medrau a deall yr heriau sy’n eu hwynebu wrth ddod yn ddyn ifanc yn y gymdeithas bresennol. Mae llawer o bobl ifanc yn cymryd rhan ym mhrosiect garddio Hive Guys ac yn mynegi eu hunain trwy dyfu bwyd a meithrin yr amgylchedd, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol ag oedolion a phobl ifanc eraill yn y gymuned, hefyd.

**Cameo: Gloves in the gym a DoJo**

**‘Nid dim ond i'r bechgyn sy'n dda’**

Mae ‘Menig yn y gampfa’ yn brosiect sy'n seiliedig ar weithgareddau corfforol gyda'r nod o gynyddu iechyd a lles drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon cadarnhaol, herio ymddygiadau negyddol, magu hyder a hunan-barch ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o fod yn aelod gweithredol o'u cymuned.

Mae'r prosiect yn cynnal 7 sesiwn bwrpasol yr wythnos ar draws gwahanol ysgolion a lleoliadau cymunedol ym Mro Morgannwg. Mae'r tîm o staff yn cyflwyno sesiynau seiliedig ar atgyfeirio mewn ysgolion prif ffrwd, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, i'r Ganolfan Adnoddau yn Whitmore ar gyfer pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a Chlwb Lles ar ôl Ysgol a sesiynau mynediad agored yn y gymuned ar gyfer amser hamdden cadarnhaol gyda'r nos. Yn ogystal â hyn, mae'r prosiect Menig yn y Gampfa yn darparu gweithgareddau ym mhob digwyddiad cymunedol a gynhelir gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro, ynghyd â chynnig cymorth wedi'i dargedu o fewn y gyfarwyddiaeth addysg p'un ai yw hon yn sesiynau un-i-un neu mewn grŵp.

## Cyfranogol

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y prosiectau a’r sesiynau a ddarperir gan y gwasanaeth ieuenctid a’r sefydliadau partner. Yn y darpariaethau mynediad agored fel ‘Youthy’ yn yr Hyb a V-Pod, mae pobl ifanc yn gwneud dewisiadau am yr

hyn y maent eisiau ei wneud yn ystod y sesiynau. Maent yn ymuno ag amrywiaeth o weithgareddau â brwdfrydedd. Dangosant awydd i gyfrannu at y dynameg grŵp. Maent yn dysgu am bwysigrwydd cymryd eu tro, cyfathrebu effeithiol, parch, gwaith tîm, a datrys problemau wrth iddynt oresgyn heriau sy'n codi yn ystod sesiynau. Maent yn dod o hyd i ffordd o ddefnyddio'u hegni trwy gemau pêl mewn ardaloedd chwaraeon dan do ac awyr agored.

**Cynhwysol**

Mae pobl ifanc o ddemograffeg eang yn mynychu sesiynau mynediad agored. Mae pobl ifanc sy'n nodi eu bod yn LHDTC+ yn datblygu hyder a hunan-barch trwy brosiect I AM ME. Mae pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa yn yr un modd ar weithgareddau clwb arbenigol (Clwb Hwb) sy'n gwella'u gallu i ryngweithio'n fwy llwyddiannus o fewn cymdeithas.

**Cameo: 'Hive Guys'**

Mae hwn yn brosiect cyffrous ac arloesol a ddarperir gan y Gwasanaeth Ieuenctid gyda chynaliadwyedd ac ymgysylltiad cymunedol wrth ei wraidd. Dechreuodd y prosiect fel darpariaeth mynediad agored i bobl ifanc o bob rhan o Fro Morgannwg o fewn yr ystod oedran 11-17. Y ffocws gwreiddiol oedd rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â chadw gwenyn a chynhyrchu bwyd ffres. Sefydlwyd 'Hive Guys' fel rhan o brosiect adfywio cymunedol ehangach sy'n cynnwys darparwyr tai lleol, ysgol gynradd leol a'r grŵp addysg gartref dewisol. Cefnogir pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd dysgu achrededig wrth gael eu huwchsgilio i dyfu a chynhyrchu eu bwyd eu hunain, gyda'r nod o alluogi byw'n gynaliadwy, hyrwyddo coginio prydau syml a gwella sgiliau bywyd sylfaenol. Mae pwyslais cryf ar ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau ym mhob agwedd o'r prosiect.

Mae'r prosiect wedi esblygu ac yn ddiweddar, buont yn cydweithio â grŵp graffiti lleol talentog i greu murlun cymunedol yn ardal y Barri. Mae unrhyw weithgareddau prosiect newydd yn cael eu pennu gan y bobl ifanc eu hunain ac mae'r gwasanaeth ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

Mae pobl ifanc yn dod yn eiriolwyr effeithiol dros eu hawliau, cynhwysiant, a chyfiawnder cymdeithasol. Maent yn dangos ymwybyddiaeth o faterion ac yn gallu herio gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a chreu newid cadarnhaol o fewn eu grwpiau cyfoedion.

Mae llawer o bobl ifanc yn mynegi eu hunaniaethau a'u safbwyntiau eu hunain yn hyderus, tra'n dysgu gwerthfawrogi pobl eraill a meithrin ymdeimlad o berthyn hefyd. Gallant asesu eu hagwedd, eu tueddfryd a'u hymddygiadau eu hunain, gan feithrin twf ac ymrwymiad i ddysgu a hunanwella.

Mae ychydig o bobl ifanc yn defnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg yn dda mewn gweithgareddau a gyflwynir mewn partneriaeth â'r Urdd, Menter Iaith Y Fro ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg lleol.

## Grymusol

Mae pobl ifanc yn mynegi eu barn mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn enwedig yng nghyfarfodydd Cyngor Ieuenctid Y Fro, ac yn chwarae rôl weithredol mewn amgyffred diddordebau a phryderon pobl ifanc, a'u rhannu trwy arolwg Gwneud Eich Marc Senedd Ieuenctid y DU, er enghraifft.

Bron ym mhob sesiwn, mae pobl ifanc yn mynegi eu barn yn hyderus. Mewn sesiynau yn yr ysgol, mae llawer o bobl ifanc yn dysgu cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dewisiadau addysgol a'u dewisiadau gyrfa. Maent yn deall sut bydd dewisiadau a chamau cadarnhaol yn helpu ffurfio'u dyfodol.

Caiff pobl ifanc eu grymuso mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, ym mhrosiect Ei Llais Cymru, mae menywod ifanc yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran rhywedd trwy godi ymwybyddiaeth am y materion sy'n wynebu menywod ifanc heddiw.

**Cameo: Ei Llais Cymru**

Dechreuwyd y prosiect hwn gan fenywod ifanc eu hunain. Gyda chymorth gweithwyr ieuenctid, enillon nhw'r medrau a magu hyder i fod yn hyrwyddwyr cydraddoldeb a lleisiau merched yn eu cymunedau. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r bobl ifanc wedi datblygu arweiniad i godi ymwybyddiaeth am faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Cefnogir y prosiect gan aelodau etholedig Cyngor Bro Morgannwg ac mae'r adnoddau a ddatblygwyd wedi cael eu lledaenu'n eang. Enillodd y prosiect y Wobr Genedlaethol Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yn 2024 yn y categori partneriaeth leol.

Mae llawer o bobl ifanc yn manteisio ar y gofodau diogel a'r perthnasoedd cadarnhaol a ddarperir gan weithwyr ieuenctid i ddatblygu eu hunanhyder a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Mae ansawdd gwaith ieuenctid yn uchel ac yn gyson ar draws pob agwedd ar y ddarpariaeth. Mae gweithwyr ieuenctid yn glir am egwyddorion gwaith ieuenctid ac yn gwneud yn siŵr bod yr holl weithgareddau yn glynu atynt. Maent wedi ymrwymo i'w rolau ac mae ganddynt lefelau uchel o egni a brwdfrydedd. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth a gweithgareddau gwaith ieuenctid, gan gynnwys mentoriaeth, meithrin medrau, cymorth addysgol, help â dewisiadau gyrfa, gweithgareddau hamdden, man diogel i bobl ifanc gymdeithasu, cael hwyl a mynegi a datblygu eu hunain. Maent yn cyfathrebu'n fedrus ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â phobl ifanc. Mae gweithwyr ieuenctid yn myfyrio ar eu gwaith ac yn gwneud addasiadau i gyflwyno, o ganlyniad. Maent yn dangos hyblygrwydd ac arloesedd, ac yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o fireinio a gwella'u harlwy.

Mae pob un o'r staff gwaith ieuenctid yn meithrin perthynas â phobl ifanc ac yn asesu eu hanghenion. Pan fo'n briodol, maent yn cyfeirio pobl ifanc yn gyflymach at gymorth mwy targedig. Mae'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol o fewn y timau a'r partneriaid amrywiol, ac ar eu traws, yn golygu bod cymorth yn brydlon ac yn effeithlon.

Ar draws y gwasanaeth, mae gweithwyr wedi ymrwymo i'w cyfrifoldebau proffesiynol, ac yn aml yn gwneud ymdrech arbennig. Caiff yr ymagwedd hon effaith gadarnhaol, yn enwedig ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n wynebu heriau mwy cymhleth. Mae'r ymagwedd a ddefnyddia gweithwyr ieuenctid tuag at bobl ifanc yn magu hyder a hunanddibyniaeth ac yn hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol rhwng pobl ifanc a'u cyfoedion, a gydag oedolion eraill yn ogystal, er enghraifft athrawon. Mae gan weithwyr ieuenctid rôl sylweddol mewn cynorthwyo pobl ifanc o fewn lleoliadau ysgol, ac fe gaiff y gwaith hwn ei werthfawrogi'n fawr gan y bobl ifanc, staff addysg ffurfiol a rhieni a gofalwyr.

Mae gweithwyr ieuenctid sy'n rhan o weithgareddau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn chwarae rôl sylweddol mewn cefnogi pobl ifanc trwy gyfnodau pontio. Maent yn annog ac yn galluogi pobl ifanc i aros mewn addysg ffurfiol ac yn gweithio'n dda gydag asiantaethau partner, fel cyfiawnder ieuenctid, i ddarparu'r ystod eang o gymorth sydd ei angen ar lawer o'r bobl ifanc hyn, gan gynnwys gyda digartrefedd a phroblemau iechyd meddwl. Mae ganddynt yr agwedd na fyddant byth yn rhoi'r gorau i ymdrechu ar ran person ifanc, beth bynnag yw'r rhwystrau. Gyda'u hasiantaethau partneriaeth, maent wedi sicrhau cyrchfannau ôl-16 priodol yn llwyddiannus ar gyfer llawer o bobl ifanc.

Mae gweithwyr ieuenctid, a'r tîm lles yn benodol, yn chwarae rôl sylweddol mewn cefnogi iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Er enghraifft, yn ystod y pandemig diweddar, i lawer o bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid oedd yr unig oedolion a oedd ar gael yn emosiynol yn eu bywydau. Mae'r tîm lles yn parhau i gynorthwyo pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n wynebu heriau sylweddol, sy'n aml yn newid bywyd.

Mae gweithwyr ieuenctid mewn clybiau ar ôl yr ysgol a chlwb arbenigol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn cefnogi ac yn grymuso pobl ifanc i reoli eu hemosiynau eu hunain, goresgyn ofnau a meithrin annibyniaeth.

Mae ychydig o weithwyr ieuenctid yn defnyddio Makaton yn dda i gynorthwyo pobl ifanc. Mae ychydig o weithwyr ieuenctid yn siaradwyr Cymraeg, ond nid ydynt bob amser yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg wrth ryngweithio â phobl ifanc.

Mae staff y gwasanaeth ieuenctid yn hynod ymrwymedig i addysg a chymorth i bobl ifanc ac mae hyn yn aml yn ymestyn i gynorthwyo aelodau eraill o'r teulu. Mae pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr yn ymddiried yn sylweddol mewn gweithwyr ieuenctid ac yn tystio i'r effaith a gaiff gwaith ieuenctid ar newid eu bywydau.

Mae'r ddarpariaeth yn amrywiol ac yn diwallu anghenion pobl ifanc a'r safonau ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Ceir cyfuniad priodol o ddarpariaeth gyffredinol a thargedig, gan gynnwys sesiynau mynediad agored, darpariaeth symudol, gwaith yn yr ysgol a gwaith prosiect. Mae'r ehangder hwn yn y ddarpariaeth yn sicrhau bod ystod eang o anghenion pobl ifanc yn gallu cael eu diwallu, ni waeth beth yw eu pwynt cyswllt cychwynnol â'r gwasanaeth.

Mae sesiynau cyffredinol, mynediad agored yn chwarae rhan allweddol yn y gwasanaeth. Caiff y sesiynau eu cynllunio'n effeithiol, eu staffio'n briodol, ac maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer pobl ifanc. Cynigir llawer o weithgareddau i bobl ifanc yn y sesiynau hyn, gan gynnwys chwaraeon, y celfyddydau, gemau

cyfrifiadur, gemau bwrdd, man ymlacio, darlledu ar radio (trwy Bro Radio), gemau hamdden a gwneud byrbrydau iach.

Caiff darpariaeth ei hamserlennu trwy gydol y dydd a gyda'r nos ac ar unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn, o bosibl, gan addasu'r cwricwlwm yn ôl yr angen, er enghraifft yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol. Mae'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu mewn ysgolion, yn ystod oriau ysgol a'r tu allan, p'un ai trwy hunangyfeirio neu drwy anogaeth gan yr ysgol, yn gryfder nodedig. Er enghraifft, ceir ymagwedd ataliol gref mewn clybiau lles ar ôl yr ysgol, ac maent yn llwyddo i helpu pobl ifanc i ddelio â phroblemau gorbryder ar lefel isel cyn i'r rhain fynd yn rhy broblemus. Mae ysgolion yn amlwg yn cydnabod ac yn deall gwerth gwaith ieuenctid ac yn mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd y gwasanaeth ieuenctid ymhlith disgyblion a rhieni.

Mae cyfleoedd eraill ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys sesiynau targedig sy'n darparu ymyriadau ar gyfer pobl ifanc fregus y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mewn partneriaeth â'r YMCA, mae gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno rhaglen iechyd rhywiol Cerdyn C, sy'n cynnwys trafodaethau am berthnasoedd iach.

Mae cysylltiadau'r gwasanaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys ysgolion, yn gryf iawn. Mae gan weithwyr ieuenctid enw da cadarnhaol iawn gydag ysgolion a chydnabyddir eu bod yn addysgwyr proffesiynol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymglymiad disgyblion mewn addysg ffurfiol. Yn ychwanegol, mae adran ddigartrefedd y gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol iawn gydag adran dai Y Fro i gysylltu pobl ifanc yn gyflym â ffynonellau cymorth ychwanegol, yn ôl yr angen.

Mae gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig yn ymchwilio ac yn mapio'r mathau o waith ieuenctid sydd ei angen ac yn dod o hyd i ddulliau arloesol i ymgysylltu â phobl ifanc yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth yn ymatebol i'r galw ac anghenion partneriaid, pobl ifanc a'u cymunedau, ac mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i ddefnyddio'i adnoddau yn effeithiol.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal arlwy cyffredinol trwy weithio mewn partneriaeth, er enghraifft gyda'r YMCA i ddarparu clybiau mynediad agored yn ardal Y Barri. Mae cyfleuster yr Hyb yn cynnal ystod eang o weithgareddau gwaith ieuenctid trwy gydol yr wythnos, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n 18 oed ac yn hŷn.

Ceir cyfuniad o gymunedau trefol a gwledig yn Y Fro, ac mae gweithgareddau dros dro a digwyddiadau yn yr haf yn mynd â gwaith ieuenctid i ardaloedd lle mae pobl ifanc yn ymgasglu a lle nad yw clybiau mewn adeiladau yn gynaliadwy. Mae darpariaeth symudol, ar ffurf y bws V-POD, a gwaith ieuenctid datgysylltiedig, yn mynd â darpariaeth i ardaloedd mwy gwledig i ddiwallu'r angen am arlwy cyffredinol.

**Cameo: ‘Mae Pawb yn Caru’r Bws’**

Y V-Pod yw darpariaeth symudol Bro Morgannwg, ac mae’n brofiad cadarnhaol a difyr ar gyfer pobl ifanc sy’n galluogi gweithwyr ieuenctid i addasu eu hymagwedd ar sail anghenion a diddordebau uniongyrchol y gymuned y maent yn ymweld â hi. Mae’r bws yn helpu cynnal proffil y gwasanaeth ieuenctid ar draws yr awdurdod lleol. Mae staff yn fedrus o ran nodi a thrafod y lleoliadau gorau i barcio ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o’r gofod ar y bws. Mae’r bws yn cario amrywiaeth o offer, gan gynnwys gasebos ar gyfer digwyddiadau dros dro, offer chwaraeon, celf a cherddoriaeth. Mae’r ddarpariaeth yn cynnig hyblygrwydd i gyrraedd pobl ifanc nad ydynt efallai’n cael cyfle i fynychu clwb neu wasanaeth ieuenctid oherwydd rhwystrau daearyddol, cymdeithasol, neu economaidd. Mae’r uned symudol yn sicrhau cynwysoldeb ac yn galluogi pobl ifanc sydd wedi’u hynysu i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Er enghraifft, caiff un person ifanc sy’n derbyn gofal lliniarol ei galluogi i fynychu sesiynau gyda chymorth ei gofalwr a’r gweithwyr ieuenctid, sy’n mynd i’r afael â’r rhwystr rhag cyfranogi.

Lle ceir cyfleoedd, mae pobl ifanc yn ymgysylltu’n ddefnyddiol â’r gweithgareddau Cymraeg, er enghraifft yn y clwb Cymraeg yn Y Barri a ddarperir trwy drefniant partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw’r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael yn gyfartal i bobl ifanc o bob rhan o’r Fro.

**Arwain a gwella**

Mae ethos gwasanaeth ieuenctid Bro Morgannwg wedi’i seilio’n gryf ar lais pobl ifanc ac ar ddarparu’r cymorth sydd ei angen arnynt i dyfu’n ddinasyddion hyderus a gwybodus. Mae pobl ifanc yn aelodau o bwyllgor craffu ar ddysgu a diwylliant y Cyngor sy’n cynnig her gadarnhaol i bolisïau’r Cyngor. Caiff eu mewnbwn ei werthfawrogi gan uwch swyddogion y Cyngor a’r prif weithredwr, sy’n golygu bod y gwasanaeth ieuenctid yn hynod weladwy mewn strategaethau a pholisïau cyffredinol. Mae arweinydd y Cyngor yn eiriol dros bobl ifanc ac yn cefnogi eu cyfraniadau a’u craffu ar bolisïau. Y Fro sydd â’r cynghorydd ieuengaf i gael ei ethol yng Nghymru a ddatblygodd ei fedrau trwy ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid. Mae’n Hyrwyddwr Ieuenctid dynodedig ac yn parhau i gynorthwyo pobl ifanc a gweithio gyda nhw i gefnogi eu cynrychiolaeth a’u cyfranogiad mewn bywyd cymunedol a dinesig.

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid weledigaeth glir, sy’n cydnabod mai pobl ifanc yw’r adnodd mwyaf gwerthfawr, ac mae hyn yn sail i weledigaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer ‘cymunedau cryf â dyfodol disglair’. Ysgrifennwyd y weledigaeth ar y cyd â phobl ifanc, ac mae’n cynnwys ymagwedd yn seiliedig ar hawliau at rymuso pobl ifanc i fod yn unigolion gwybodus, gwydn ac iach. Mae thema gref o gyfranogiad ac ymgynghoriad pobl ifanc i’w gweld trwy’r ddarpariaeth gyfan ac yn sail i gynllunio a chyflwyno gwaith ieuenctid.

Mae’r gwasanaeth ieuenctid wedi’i ymgorffori’n gadarn yng nghyfarwyddiaeth dysgu a sgiliau y Cyngor ac yn ategu a chefnogi’r agenda addysg ffurfiol. Mae’r gwasanaeth wedi dewis blaenoriaethau clir yn unol ag anghenion pobl ifanc, blaenoriaethau lleol a chenedlaethol a’r adnoddau sydd ar gael. Mae cymorth gan y prif weithredwr ac uwch arweinwyr yn gyrru blaenoriaethu gwerthoedd a methodoleg gwaith ieuenctid,

sy'n cael eu hymgorffori mewn gwahanol agweddau ar gymorth i bobl ifanc mewn addysg ffurfiol ac mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid mwy traddodiadol.

Mae'r gwasanaeth yn ymarferol, yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar atebion, gan addasu yn unol ag angen ac amgylchiadau. Caiff hyn ei wneud yn bosibl gan waith partneriaeth cryf, amlweddog a chydweithredol iawn gyda chyfarwyddiaethau eraill y Cyngor, trwy bartneriaethau allanol ffurfiol a gyda rhwydwaith o bartneriaid ehangach a hirsefydledig. Mae partneriaethau'n gryf gan eu bod yn amlwg yn rhoi anghenion pobl ifanc cyn ystyriaethau sefydliadol. Caiff gwybodaeth am bobl ifanc ei rhannu'n effeithiol, ac ategir hyn gan oruchwyliaeth a rheolaeth y Cyngor dros drefniadau rhannu gwybodaeth. Ceir ymagwedd 'gallu gwneud' at rannu gwybodaeth, sydd o fudd i bobl ifanc, sy'n galluogi cymorth gan nifer o asiantaethau gyda'r oedi lleiaf ac yn gwneud yn siŵr fod y cyngor a'r cymorth mwyaf addas a phriodol sydd ar gael bob amser yn cael eu cynnig i bobl ifanc. Ategir partneriaethau gan gytundebau cadarn, fel contractau a chytundebau lefel gwasanaeth gyda dangosyddion perfformiad wedi'u diffinio'n glir, i sicrhau ansawdd y cyflwyno, sefydlu trefniadau diogelu clir a chynorthwyo â chynaliadwyedd gwasanaethau a darpariaeth.

Mae'r partneriaethau hyn yn galluogi'r gwasanaeth ieuenctid i ddarparu neu hwyluso gwaith ieuenctid sy'n diwallu anghenion pobl ifanc ac yn mynd i'r afael â hanfodion polisi cenedlaethol ar gyfer cyflwyno gwaith ieuenctid. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio ystod eang o ffrydiau cyllid i gomisiynu darpariaeth gan bartneriaid, sydd yn ei dro'n hwyluso ystod ehangach o adnoddau a gweithgareddau i gefnogi a bod o fudd i bobl ifanc. Mewn un trefniant hynod ddiddorol ac arloesol, mae Cyngor Tref Penarth yn darparu cyllid i weithiwr ieuenctid o Wasanaeth Ieuenctid Y Fro weithio gyda phobl ifanc i ehangu cyrhaeddiad gweithgareddau'r gwasanaeth ieuenctid yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth yn ystwyth ac yn effeithiol wrth uchafu cyfleoedd cyllid, ac mae'r adroddiadau cynhwysfawr a rheolaidd i'r pwyllgor cyllid yn golygu bod uwch swyddogion cyllid y Cyngor yn deall gwaith ieuenctid a'i flaenoriaethau cyllid, gan gynnwys yr angen am wasanaethau cynaliadwy.

Mae partneriaethau ag ysgolion yn gryfder arbennig. Mae uwch arweinwyr ysgolion yn deall gwerth gwaith ieuenctid ac yn gwerthfawrogi'r ymyriadau cadarnhaol a wna gweithwyr ieuenctid gyda phobl ifanc yn fawr. Caiff gweithwyr ieuenctid eu cynnwys fel aelodau gwerthfawr o staff ysgolion, ac maent yn aml yn darparu gweithgareddau lles ehangach, clybiau lles targedig ar ôl yr ysgol a sesiynau hyfforddi o fewn yr ysgol, yn ogystal â'u cymorth un i un hynod effeithiol ar gyfer pobl ifanc.

Ceir cynllun clir ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid, sy'n cael ei integreiddio'n llawn o fewn strwythur cynllunio ehangach y Cyngor. Mae staff a rheolwyr yn datblygu cynlluniau tîm clir sy'n bwydo i'r cynllun gwasanaeth gydag amcanion a thargedau clir. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn adnabod ei hun yn dda ar bob lefel ac mae staff ar bob lefel yn myfyrio ac yn craffu'n barhaus ar effeithiolrwydd eu gwaith, arlwy'r gwasanaeth a sut gellir gwneud gwelliannau. Cofnodir hunanasesiadau ffurfiol yn effeithiol trwy ddefnyddio cardiau adrodd chwarterol, sydd, ar y cyd â'r matrics risg, yn golygu bod materion yn cael eu nodi'n glir, yn weladwy ac yn cael eu hasesu'n rheolaidd. Rhoddir blaenoriaeth i risgiau, a'u hadolygu. Caiff data priodol y gwasanaeth ieuenctid ei gasglu a'i gofnodi gan ddefnyddio systemau gwybodaeth reoli'r Cyngor, ac mae rheolwyr yn dadansoddi hyn i asesu effaith y ddarpariaeth. Gall y gwasanaeth hefyd fanteisio ar ddata addysg ehangach, a'i drafod, yn fuddiol,

er enghraifft data cyrhaeddiad a data am bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae pob aelod o staff y gwasanaeth yn meddu ar gymwysterau priodol y JNC ac wedi eu cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg. Ceir ethos o ddatblygu a myfyrio parhaus ac ymrwymiad parhaus cryf i ddysgu proffesiynol ar draws y gwasanaeth. Mae llawer o staff yn cynyddu lefel eu cymhwyster proffesiynol, ac mae’r gwasanaeth yn cynnig goruchwyliaeth a lleoliadau i fyfyrwyr. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i staff asiantaethau a gwirfoddolwyr. Mae staff yn cael hyfforddiant corfforaethol y Cyngor a hyfforddiant arbenigol ar gyfer gweithwyr ieuenctid, er enghraifft mewn arferion sy’n ystyriol o drawma. Rhennir hyfforddiant yn dda â phartneriaid dan gontract ac asiantaethau partner. Mae staff yn hyfforddi fel gwirwyr mewnol gyda darparwr cymwysterau arbenigol er mwyn i’r Fro allu cyflwyno’i hyfforddiant achrededig mewnol ei hun.

Mae gan y gwasanaeth draddodiad gwerthfawr a chryf i feithrin a hyfforddi staff sy’n ddefnyddwyr gwasanaeth, neu wedi bod yn y gorffennol, ac erbyn hyn, mae sawl un ohonynt yn gweithio yn y gwasanaeth fel gweithwyr ieuenctid cymwys. Mae 6 o bobl ifanc yn astudio ar gyfer dyfarniad lefel 2 mewn arfer gwaith ieuenctid, a 3 o bobl ifanc yn astudio ar gyfer cymhwyster lefel 3 mewn gwaith ieuenctid.

Mae trefniadau cryf ar waith ar gyfer goruchwylio ac arfarnu, sydd hefyd yn nodi anghenion hyfforddi. Mae lefelau estynedig o gymorth ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer staff yn bodoli, i gydnabod natur y gwaith heriol ac yn aml helbulus a wnânt yn rheolaidd gyda phobl ifanc a’u teuluoedd. Mae aelodau o’r timau Lles ac Ymdrechu yn elwa ar adolygiadau achos rheolaidd.

Mae trefniadau diogelu cyffredinol yn briodol. Ceir systemau cofnodi cryf a chysylltiadau ag ystod o bartneriaid, ac fe gaiff y wybodaeth o’r rhain ei dadansoddi a’i defnyddio’n rheolaidd i dargedu hyfforddiant staff a chynllunio gwaith difyr a diogel gyda phobl ifanc.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Ymwelodd arolygwyr Estyn â gwasanaeth ieuenctid Bro Morgannwg am bedwar diwrnod a hanner ym mis Chwefror 2024.

Ymwelodd pedwar arolygydd a dau arolygydd cymheiriaid â deg sesiwn gwaith ieuenctid mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Bro Morgannwg. Aethant i un deg tri o gyfarfodydd â gweithwyr ieuenctid, staff yr awdurdod lleol, uwch staff ysgolion, aelodau etholedig ac ystod eang o bartneriaid yn yr awdurdod lleol ac o asiantaethau allanol. Ymunodd arolygydd arall â chyfarfodydd ar-lein. Hefyd, craffodd yr arolygwyr ar adroddiadau, dogfennau a data a ddarparwyd gan wasanaeth ieuenctid Bro Morgannwg.

Arsylwodd arolygwyr waith ieuenctid yn digwydd a siarad â gweithwyr ieuenctid, pobl ifanc a rhieni. Siaradodd arolygydd â naw o rieni/neiniau a theidiau dros y ffôn hefyd, a oedd yn dymuno rhoi gwybod i'r arolygwyr pa mor dda roedd gweithwyr ieuenctid wedi cefnogi eu pobl ifanc.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol a Deddf Dysgu â Sgiliau (2000)

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/04/2024